**Dyddiad cyhoeddi** Mai 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

*National Institute for Health and Clinical Excellence*

# Gosod pen-glin newydd gan ddefnyddio llawdriniaeth drwy doriad bach

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth i osod pen-glin newydd drwy doriadau bach yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd ar yr amod bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE wedi dweud mai dim ond llawfeddygon sydd wedi cael hyfforddiant ar y dechneg ddylai gyflawni'r driniaeth. Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb sy'n cael y driniaeth hon a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i gronfa ddata ganolog fel y gellir edrych ar y canlyniadau dros gyfnod o amser.

### Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE y gall gwahaniaethau fodoli yn y ffordd y cynhelir llawdriniaeth â thoriad bach i osod pen-glin newydd. Mae rhai pryderon hefyd ynghylch pa mor fuan y mae angen gosod cymal pen-glin artiffisial newydd ar ôl llawdriniaeth â thoriad bach. Fodd bynnag, dangosodd cronfa ddata fawr yn cymharu'r driniaeth â thoriadau bach â'r triniaethau safonol dros gyfnod o hyd at wyth mlynedd nad oedd gwahaniaeth yn yr amser cyn bod angen gosod cymalau newydd.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer problemau â chymal y pen-glin. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Gosod pen-glin newydd gan ddefnyddio llawdriniaeth drwy doriad bach

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae nifer o gyflyrau yn achosi problemau â chymal y pen-glin, a'r mwyaf cyffredin yw osteoarthritis lle y mae cartilag (y deunydd llyfn sy'n gorchuddio'r esgyrn) yn treulio dros amser, gan achosi niwed i'r cymal ac arwain at lid a phoen. Mae triniaethau'n cynnwys cyffuriau i leddfu'r boen a'r llid, ffisiotherapi, pigiadau a llawdriniaeth. Mae llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn cynnwys tynnu arwyneb y cymal sydd wedi'i ddifrodi a gosod cymal artiffisial newydd yn ei le. Cyflawnir y driniaeth â thoriad bach gan ddefnyddio anesthetig cyffredinol neu anesthetig yn r asgwrn cefn (lle mai dim ond rhan isaf y corff fydd yn ddideimlad a bydd y claf yn aros yn ymwybodol). Defnyddir offerynnau arbennig i gyflawni'r llawdriniaeth sy'n golygu bod angen toriad llai nag sydd ei angen ar gyfer llawdriniaeth safonol i osod pen-glin newydd. Defnyddir yr un math o gymal artiffisial yn y driniaeth â thoriad bach ag yn y driniaeth safonol i osod pen-glin newydd, ond drwy ddefnyddio offerynnau arbennig nid oes rhaid troi padell y pen-glin i un ochr nac afleoli cymal y pen-glin, a gallai leihau niwed i gyhyrau a thendonau'r goes.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon? Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth lle y cafodd 52 o gleifion y driniaeth â thoriad bach a chafodd 56 ben-glin newydd â'r driniaeth safonol, roedd 34 o gleifion o bob grŵp heb boen chwe mis ar ôl y driniaeth. Mewn astudiaeth o 200 o driniaethau i osod pengliniau newydd, nodwyd bod cleifion yn profi llai o boen flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth â thoriad bach (3.2 pwynt ar raddfa o 0 i 10, a sgôr uwch yn golygu mwy o boen) o gymharu â'r llawdriniaeth safonol (3.8 pwynt). Yn yr astudiaeth o 108 o gleifion, ar raddfa o 0 i 100 (sgôr uwch yn dynodi llai o boen a mwy o symudiad yn y pen-glin), roedd gan gleifion a gafodd lawdriniaeth â thoriad bach sgôr o 84 pwynt ar gyfartaledd chwe mis ar ôl y driniaeth o gymharu ag 85 pwynt i'r rheini a gafodd lawdriniaeth safonol.

Mewn astudiaeth o 237 o gleifion yr oedd angen cymal pen-glin artiffisial newydd arnynt ar ôl i'w llawdriniaeth wreiddiol i osod pen-glin newydd fethu, roedd angen gosod pen-glin newydd yn lle'r hen un yn y cleifion a gafodd y driniaeth â thoriad bach ar ôl 15 mis ar gyfartaledd, o gymharu â 79 mis i' rhai a gafodd ben-glin â thriniaeth safonol. Nododd astudiaeth o 747 o driniaethau i osod pengliniau newydd fod cleifion a gafodd y driniaeth â thoriad bach yn gallu plygu eu pen-glin ymhellach na chleifion a gafodd driniaeth safonol i osod pen-glin newydd, chwe mis ar ôl y llawdriniaeth.

Gofynnodd NICE i gynghorwyr arbenigol hefyd am eu barn. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw lleihau'r amser gwella

a sicrhau bod y pen-glin a'r mewnblaniad yn parhau i weithio'n dda yn yr hirdymor.

## Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 732 o driniaethau i osod pengliniau newydd ac astudiaeth o 335 o gleifion, cafwyd haint dwfn yn y clwyf a arweiniodd at lawdriniaeth bellach i dynnu'r cymal dan sylw a gosod cymal newydd yn ei le mewn dau allan o 725 o bengliniau a dau allan o 335 o gleifion a gafodd y driniaeth â thoriad bach yn ystod cyfnod o ddwy flynedd ar gyfartaledd ar ôl y driniaeth.

Yn yr astudiaeth o 732 o driniaethau i osod pengliniau newydd, bu'n rhaid draenio un pen-glin ar ôl achos o waedu i mewn i'r cymal. Yn yr un astudiaeth, methodd y rhan o gymal artiffisial y pen-glin sy'n gysylltiedig ag asgwrn y grimog (tibia) a bu'n rhaid gosod un newydd flwyddyn neu fwy ar ôl cael y driniaeth â thoriad bach mewn dau allan o 725 o bengliniau. Syrthiodd un claf a thorri'r asgwrn hir yn rhan uchaf y goes (femur) yn agos at gymal artiffisial y pen-glin bythefnos ar ôl cael llawdriniaeth â thoriad bach, a nodwyd bod y tendon sy'n uno'r tibia â phadell y pen-glin wedi rhwygo mewn un claf ac y bu'n rhaid ei atgyweirio â llawdriniaeth.

Mewn astudiaeth o 137 o bengliniau, canfuwyd bod y tendon sy'n uno'r tibia â phadell y pen-glin wedi byrhau mewn mwy o bengliniau a gafodd y driniaeth safonol i osod pen-glin newydd (21 allan o 57) na phengliniau a gafodd y driniaeth â thoriad bach (9 allan o 74) ddwy flynedd ar ôl y driniaeth. Yn yr un astudiaeth, bu'n rhaid cynnal llawdriniaeth bellach o dan anesthetig cyffredinol i wella symudiad cyfyngedig y pen-glin chwe wythnos ar ôl y llawdriniaeth mewn dau allan o 68 o gleifion a gafodd llawdriniaeth â thoriad bach a phedwar allan o 61 o gleifion a gafodd y llawdriniaeth safonol. Yn yr astudiaeth o 747 o driniaethau i osod pengliniau newydd, cafwyd 'clync

padell y pen-glin', lle y teimlir clic neu 'glync' yn y pen-glin wrth blygu, mewn 17 allan o 275 o bengliniau ar ôl llawdriniaeth â thoriad bach ac un allan o 225 o bengliniau ar ôl llawdriniaeth safonol flwyddyn ar ôl y driniaeth.

Gofynnodd NICE i gynghorwyr arbenigol hefyd am eu barn. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod y problemau posibl yn cynnwys llawdriniaeth ay'n para am gyfnod hwy a gosod y mewnblaniad yn anghywir. Gallai'r problemau hefyd gynnwys y cymal yn methu'n gynnar os na chaiff unrhyw sment asgwrn sydd dros ben ei dynnu.

## Rhagor o wybodaeth am broblemau â chymal y pen-glin

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar broblemau â chymal y pen-glin, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'llawdriniaeth â thoriad bach i osod pen-glin newydd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/IHTG220*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8150-2
N2257 1P May 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.